Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Llechyfedach**
**Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6DT**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Thomas | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Llechyfedach wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Llechyfedach oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn dangos fod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r disgyblion bellach yn cael cyfleoedd rheolaidd i ysgrifennu yn estynedig ar gyfer ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae dealltwriaeth y disgyblion o ysgrifennu mewn arddulliau gwahanol yn gadarn ac maent yn cymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn llwyddiannus. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion a pherfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynllunio yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwyaf galluog

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gyd gynllunio gweithgareddau amrywiol sy'n ymateb i anghenion pob disgybl. Mae cynlluniaur gwaith yn sicrhau bod y gweithgareddau'n cynnig digon o her i ddisgyblion mwyaf galluog. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgol uwchradd leol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion mwyaf galluog ymhellach.

Mae asesiadau athrawon yn 2014 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, yn dangos bod cynnydd yng nghanran y disgyblion â gyrhaeddodd y deilliannau uwch ym mhob maes dysgu. Yn gyffredinol, mae cynnydd hefyd i'w weld ers yr arolygiad yng nghanran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

### Argymhelliad 3: Cryfhau agweddau o asesu ac asesu ar gyfer dysgu

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol strategaethau asesu cadarn sy'n hybu dysgu llwyddiannus. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r disgyblion yn derbyn adborth adeiladol gan athrawon sy'n cyfeirio'n addas at y nodau addysgol. Mae hyn yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion wybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol ddulliau cadarn er mwyn i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hunanasesu ac asesu cymheiriaid bellach yn rhan amlwg o waith y dosbarth. Mae disgyblion yn hyderus wrth gytuno ar nodau addysgol ac wrth asesu eu gwaith. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau rhan fwyaf y disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau asesu cadarn a defnyddir rhaglenni cyfrifiadurol i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cymryd rhan mewn gweithgarwch safoni a chymedroli defnyddiol yn fewnol ac fel clwstwr o ysgolion lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r athrawon i lefelu gwaith disgyblion yn gywir. Mae athrawon yn ystyried proffiliau o waith disgyblion yn ofalus, sy'n sicrhau cysondeb ysgol gyfan wrth ddyfarnu deilliannau a lefelau cyrhaeddiad disgyblion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth yw eu targedau ar gyfer gwella eu gwaith. Mae rhan fwyaf o'r targedau yn heriol ac mae'r disgyblion yn trafod y cynnydd a wneir ac yn rhan o'r broses wrth osod targedau dilynol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan weithredol o'u dysgu eu hunain.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn arbennig yn y broses o hunan-arfarnu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae polisi a gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu hadolygu'n briodol ynghyd â chyfrifoldebau staff ar draws yr ysgol. Trwy hyn, llwyddwyd i sicrhau ymglymiad arweinwyr yr ysgol yn y broses hunanarfarnu. Bellach, mae rhaglen addas ar gyfer hunanarfarnu gwaith yr ysgol mewn lle. Mae'r broses yn galluogi arweinwyr i ystyried amrediad eang o dystiolaeth a ddaw drwy ddadansoddi data, arsylwi gwersi a craffu ar lyfrau. Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio holiaduron yn briodol i geisio barn disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr.

Mae rhannu arfer dda a chydweithio effeithiol gyda penaethiaid ysgolion cyfagos wedi cryfau sgiliau arweinyddol yr uwch dîm rheoli. O ganlyniad, mae arweinwyr yr ysgol wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i'r staff er mwyn sicrhau fod ganddynt y medrau anghenrheidiol i arfarnu gwaith yr ysgol yn effeithiol. Bellach, mae ansawdd yr adroddiadau am feysydd penodol yn fwy arfarnol. Maent yn ffocysu'n fwy clir ar safonau a chyflawniad disgyblion ynghyd â nodi agweddau penodol sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yr ysgol yn ddarlun clir o gryfderau a meysydd i'w gwella.

**Argymhelliad 5: Datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethu fel cyfaill beirniadol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan bob llywodraethwr gyfrifoldeb am agweddau penodol o waith yr ysgol. Trwy'r ymweliadau cyson a chymryd rhan yn y 'teithiau dysgu', mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau ysgol. Ar y cyfan, mae eu hadroddiadau'n arfarnol

ac yn nodi sylwadau adeiladol yn ogystal â'r camau sydd angen eu datblygu ymhellach. Caiff yr adroddiadau eu rhannu a'u trafod mewn cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethol, sy'n sicrhau fod holl aelodau â dealltwriaeth gadarn am safonau.

Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth dros dro am gynnydd disgyblion a pherfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r llywodraethwyr yn ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol fel rhan o'r broses hunanarfarnu ac wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr gan yr awdurdod lleol sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio'r ysgol ynghylch â'i pherfformiad yn fwy effeithiol.

**Argymhelliad 6: Ffurfioli'r trefniadau diogelwch ymhellach**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gweithdrefnau cadarn mewn lle ar gyfer sicrhau diogelwch staff a disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i'r diffygion a amlygwyd o ran diogelwch yr adeilad.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.